Atodiad 4: Hysbysiad Preifatrwydd yr Her Môr-lynnoedd Llanw

**Cefndir**

Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth bersonol am aelodau'r tîm ymchwil fel rhan o geisiadau prosiect yr Her Môr-lynnoedd Llanw:

Ar ôl derbyn y wybodaeth gan yr ymgeisydd, Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar ei chyfer.

Dyma'r wybodaeth bersonol a chategori arbennig a fydd yn cael ei chasglu:

- manylion personol fel enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn
- data gyrfa fel hanes cyflogaeth, arbenigedd ymchwil
- data addysg fel cymwysterau academaidd a phroffesiynol

**Beth ydyn ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth chi?**

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch data personol yw adran 6(1)(e) o Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus i'ch adnabod a phrosesu eich cais.

Yn ein cylch gwaith fel y rheolydd data, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a ddaw i law at y dibenion isod.

1. **Cyfathrebu am broses yr Her Môr-lynnoedd Llanw:**
    - rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cais
    - darparu canlyniad y broses ddyfarnu

2. **Gwerthuso ceisiadau'r Her Môr-lynnoedd Llanw**
    - asesu addasrwydd y tîm ymchwil i gyflawni'r prosiect arfaethedig

**Â phwy ydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth chi?**

Bydd gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan Lywodraeth Cymru am ymgeiswyr yr Her Môr-lynnoedd Llanw yn cael ei rhannu gyda Local Partnerships LLP, sy'n helpu i weinyddu'r Her. Hefyd, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r gwerthuswyr annibynnol a fydd yn gyfrifol am asesu'r ceisiadau.

**Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth chi?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r wybodaeth am 6 mis o ddiwedd y broses ymgeisio ar gyfer ceisiadau aflwyddiannus, ac am 6 mis o ddiwedd y rhaglen grant ar gyfer ceisiadau llwyddiannus.

**Eich hawliau chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth.**

Mae gennych hawl:

- i gael mynediad at y data personol yr ydym yn ei brosesu amdanoch;
- i ofyn i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- i wrthwynebu prosesu (mewn rhai amgylchiadau);
- i fynnu bod eich data'n cael 'ei ddileu';

- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I ddysgu rhagor am y wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd ohoni, neu os ydych chi'n dymuno arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk